# THOMAS, SIENCYN neu JENKIN (1690 - 1762), crydd, pregethwr Ymneilltuol, a phrydydd

**Enw:** Siencyn Thomas
**Dyddiad geni:** 1690
**Dyddiad marw:** 1762
**Plentyn:** John Jenkin
**Rhiant:** Thomas Morgan
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** crydd, pregethwr Ymneilltuol, a phrydydd
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** Geraint Bowen

Mab Thomas Morgan, melinydd Tre Wen, Brongwyn, Sir Aberteifi. Trigai yn y Cwm Du. Ar dystiolaeth marwnad iddo gan ei fab, John Jenkin, ganwyd ef yn 1690. Dechreuodd bregethu gyda'r Ymneilltuwyr yn 1716, a bu'n cynorthwyo achosion crefyddol Tre Wen a Llechryd. Dengys ei englynion ' In Laudem Authoris ' yn *Drych y Prif Oesoedd*, 1716, a'i gywydd a argraffwyd yn *Meddylieu Neillduol ar Grefydd*, 1717, ei fod, er yn gymharol ieuanc, ymhell ar y blaen ar ei gyfeillion llenyddol yn neau Aberteifi yn ei feistrolaeth ar gerdd dafod a'i adnabyddiaeth o arddull draddodiadol y cywyddau. Mae ar ei orau yn ei farwnad i Ifan Gruffydd, y T r Gwyn, a luniwyd yn 1735. Crefyddol a moesegol iawn yw ei gerddi rhydd, a dyry le amlwg ynddynt i'r gynghanedd a'r odl fewnol. Ef oedd y cyntaf o feirdd Ceredigion i ddefnyddio'r mesur tri thrawiad.

## Awdur

**Dr Geraint Bowen**

## Ffynonellau


*Yr Adolygydd*, iii, 55

*Y Geninen*, x, 78

*Cymru (O.M.E.)*, vii, 173

Benjamin Williams (Gwynionydd), *Enwogion Ceredigion* (1869), 227

*Blodau Dyfed* (1824), 1824

*Diliau'r Awen, sef, Crynodeb o Waith Awenyddol ... Evan Thomas Rhys ... ac eraill* (1842), 1842

*Ceinion Alun* (Rhuthyn 1851), 72

*Almanac Siôn Rhydderch* (1733), 1733

N.L.W. Llanover MS. 59,266

*NLW MS* 19

*Cardiff Manuscript* 56


## Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: NLW ex 1836: Beirdd Cwm-du

CBHC: Enwau Lleoedd Hanesyddol: Allt Cwm du

Wikidata: Q20734396


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cfrannu